**COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF ABERAERON A GYNHALIWYD AR NOS FAWRTH EBRILL 14eg 2026 AM 7.00yh YN NEUADD GOFFA ABERAERON**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Tim Archer (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Aled Davies, Phillip Davies, Rhys Davies, Elizabeth Evans, Lloyd Garvey a Rhodri Jones.
Mr Denfer Morgan – Clerc y Cyngor.

**726. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Darryl Evans, Agnieszka Kalinowska a Diana Mace.

**727. DATGELU BUDDIANT**

Datgelodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod wedi derbyn gollyngiad gan Bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion er mwyn siarad a phleidleisio ar faterion ynghylch Pwll Nofio Aberaeron fel y nodwyd yng nghofnod 729.

**728. CADARNHAD COFNODION Y CYFARFOD MISOL AR FAWRTH 10fed 2026**

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod misol ar Fawrth 10fed 2026 yn gywir.

**729. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cofnod 714 - trafodaethau gyda Chlwb Pêl-droed Aberaeron: Datganodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod wedi trafod y sefyllfa gyda chynrychiolydd y Clwb Pêl-droed, ac y byddai'r Clwb yn cymryd camau i gwblhau trwydded y Cae Sgwâr.

Cofnod 714 – anghenion storio - Atgoffwyd yr Aelodau i ddarparu'r Clerc gyda manylion cyfarpar y Cyngor a gadwyd ganddynt er mwyn cynhyrchu rhestr eiddo er mwyn adnabod anghenion storio.

Cofnod 718 – Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch: Cynghorodd yr Aelodau o'r Cyngor sydd ar Bwyllgor Rheoli'r Pwll Nofio fel a ganlyn:

- Roedd y Pwyllgor wedi cofnodi ac wedi rhoi eu diolch sylweddol i'r Cyngor yma am y cyfraniad ariannol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 a fedrodd sicrhau parhad y Pwll Nofio.
- Roedd y ffigurau defnydd cyfredol yn galonogol, gan gynnwys clybiau nofio poblogaidd, a rhoddwyd teyrnged i'r Rheolwr a'r staff a weithiai yn galed.
- Byddai grant blynyddol newydd y Cyngor Sir o £11,000 yn cael ei dalu mewn tair rhan yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Ynghylch y cyflenwad trydan, arhoswyd am daliad dyledus oddi wrth yr Ysgol Gyfun, a byddai'r Pwll Nofio a'r Ysgol yn elwa o osod y mesurydd trydan newydd.

Cofnod 722 – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol – datganodd y Cynghorydd Rhodri Jones y byddai unwaith eto yn dosbarthu'r canllawiau cyfryngau cymdeithasol.

Cofnod 725 – Tŵr y Cei. Cynghorodd y Clerc fod perchnogaeth y Tŵr wedi'i drosglwyddo i Gyngor y Dref, a gofynnwyd iddo sicrhau ei fod yn cael ei ychwanegu i'r gofrestr asedau a'r polisi yswiriant.

**730. MATERION CYLLID**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r taliadau_canlynol:

| Anfoneb | Cyfanswm |
|---|---|
| Un Llais Cymru (Ffî Aelodaeth Flynyddol)<br>AaBbCc (cyfieithu cofnodion Medi-Chwefror (6))<br>Teresa Tanhaill (Glanhau'r Strydoedd Ion-Maw 2026) | £360<br>£557.95<br>£2,416 |

**731. MATERION CYNLLUNIO**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A260182 - Yr Hen Felin, Heol y Dŵr, Aberaeron. Adnewyddu conserfatori pren, a gosod llosgwr coed a ffliw du.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**732. MATERION TIR Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

**a) Cae Sgwâr:**

- Cadarnhau defnydd y Cae ar Orffennaf 17$^{eg}$ ar gyfer Cerdded Tân yr Ambiwlans Awyr
- Cymeradwyo cais RAY Ceredigion i orchuddio cerflun y Cob Cymreig a rhai clwydi gyda sgwarau tecstilau i ddathlu 'RAY a 25 mlynedd'; a gofyn am gadarnhad am yr amser y'u gosodwyd
- Cymeradwyo'r cais am ddefnyddio'r Cae ar gyfer Gêm Derfynol Cynghrair Merched Ceredigion - gêm y trydydd safle a'r gêm derfynol ar Fai 8$^{fed}$ a 15$^{fed}$ os derbyniwyd cadarnhad ganddynt
- Cymeradwyo'r cais i ddefnyddio'r Cae ar gyfer y Carnifal Blynyddol (Dydd Llun Gŵyl y Banc - Awst 31$^{ain}$ rhwng Dydd Sul Awst 30$^{ain}$ a Dydd Mawrth Medi 1$^{af}$.

Ynghylch y coed a bydrodd yn y Cae, nodwyd cyngor y Cynghorydd Lloyd Garvey bod Swyddog Coed a Llwyni'r Cyngor Sir wedi cytuno y dylid gwaredu'r goeden ddraenen wen, ond y byddai unrhyw waith ar y goeden 'white beam' yn cael ei atal nes bod arolwg wedi'i gynnal. **PENDERFYNWYD** gofyn i Wilson Tree Surveys i wneud ail arolwg ar y coed yn y Cae Sgwâr a Pharc-y-Fro.

b) **Meysydd Chwarae:** gofyn i'r Clerc i dderbyn dyddiad pendant ar gyfer y gwaith trwsio ar yr arwyneb.

c) **Banc Bach (Tanrallt):** gofyn i'r Clerc i ddilyn fyny'r hysbysiad a roddwyd gan y Cyngor yma ynghylch ei ddiddordeb i bwrcasu Tanrallt ar gyfer pwrpas mwynder.

## 733. DIWEDDARIAD PROSIECT DIGIDOL

a) Rhannodd y Clerc lun o'r arwydd man lluniau gyda'r Aelodau ymlaen llaw, a chytunwyd i drafod gyda'r Clwb Rygbi os fyddai'n cytuno i'w osod yno dros dro.

b) Sensoriaid: datganodd y Clerc y byddai'r archeb am gyfrifydd pobl LoRaWAN ar un glwyd ym maes chwarae Parc-y-Fro yn cael ei weithredu.

## 734. MATERION YR HARBWR

Rhoddwyd ystyriaeth i ddiweddariad gan y Cynghorydd Elizabeth Evans ar sawl mater.

Gorffennwyd carthu blynyddol yr Harbwr.

Byddai carthu'r banc graean yng ngheg yr Harbwr yn digwydd yn ystod y cyfnod Ebrill 16eg i 23ain. Ynghylch pier y de, roedd yr Ymgynghorwyr yn parhau gyda'r arolwg i ddod o hyd i ateb parhaol i atal yr adeiladu graean; ac yn y cyfamser, cymerwyd camau dros dro i gynyddu'r uchder gyda cherrig mawr, ond ni fyddai hyn yn cynyddu'r hyd.

Datganodd bod Rheolwr Harbwr newydd wedi'i benodi gan y Cyngor Sir a byddai'n cyfarfod gyda hi yn fuan i drafod yr holl faterion perthnasol ynghylch rheolaeth yr Harbwr.

## 735. CYNLLUN GRANT TREFI TACLUS

Rhoddwyd ystyriaeth i ddiweddariad a gyflwynwyd gan y Clerc. Datganodd bod cytundeb ysgrifenedig wedi'i dderbyn ar Ebrill 8fed, a lofnodwyd a'i ddychwelyd.

Cwblhawyd y trefniadau ynghylch gosod y twbâu blodau, golchi pwerus yr arwynebau ac adnewyddu'r meinciau.

Ynghylch peintio'r meinciau, **PENDERFYNWYD** ad-dalu'r contractwr Nigel Bowen, gyda chost y paent, y staen ac eitemau eraill nad oedd yn rhan o'r cynnig.

## 736. DYFYNBRISIAU AR GYFER GWASANAETHAU'R CYNGOR

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:-

i) **2026-27 cytundeb glanhau'r strydoedd:** Derbyn yr unig ddyfynbris gan Teresa Tanahill i'r cyfanswm £17,000
ii) **Cytundeb torri llwybrau troed:** Derbyn dyfynbris Paul Hughes i'r cyfanswm £980.

## 737. SIED DYNION ABERAERON

Rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r cais am gymorth ariannol oddi wrth Sied Dynion Aberaeron a **PHENDERFYNWYD** cytuno i gyfrannu £100.

**738. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR ELIZABETH EVANS**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Elizabeth Evans at y materion canlynol:-

- Roedd digwyddiad tipio anghyfreithlon yn cael ei ddelio gyda Swyddogion y Cyngor Sir
- Roedd aros am drwsio toiledau Lôn y Castell gan fod y Cyngor Sir yn edrych mewn i wneud cais yswiriant ynghylch y difrod i doiled cyhoeddus yn Llanbed. Cynghorodd yr Heddlu nad oedd yn bosib gweithredu er bod tystiolaeth gyfyngedig o’r digwyddiad ble difrodwyd toiledau Pen Cei
- Roedd trafodaethau yn digwydd gyda Swyddogion ynghylch y pryderon am rwystrau fframau-A ar y palmentydd
- Gofynnwyd i’r Swyddogion i edrych ar y cais i restru’r Ffynnon Goch.

Gorffennwyd y cyfarfod am 8.30yh.